Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) – Cwestiynau Cyffredin

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys y Cwestiynau Cyffredin y mae AGC yn eu cael am y broses ar gyfer cynnal gwiriadau adnabod drwy Wiriadau Adnabod DBS Swyddfa'r Post. Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach neu gwestiynau eraill yr hoffech eu gofyn, anfonwch e-bost i agc@llyw.cymru.

## Pwy y mae angen iddynt fynd i Swyddfa'r Post i gael gwiriad adnabod?

Unrhyw un sy'n gwneud cais am wiriad DBS ag AGC, drwy ein darparwr trydydd parti, Vibrant Nation.

## A all rhywun arall fynd â fy nogfennau adnabod i Swyddfa'r Post i'w gwirio?

Na. Caiff gwiriadau adnabod eu cynnal er mwyn gwneud y canlynol;

- Cadarnhau manylion adnabod ymgeisydd; a
- Dilysu dogfennau adnabod yr ymgeisydd.

Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r person a enwir ar y cais fynd i Swyddfa'r Post er mwyn cadarnhau ei fanylion adnabod a dilysu ei ddogfennau adnabod gwreiddiol.

## Sut alla i gael gwybod pa Swyddfeydd Post sy'n cynnig y gwasanaethau?

Mae adnodd ar gyfer dod o hyd i gangen Swyddfa'r Post wedi cael ei gynnwys fel rhan o'r ffurflen gais ar-lein, sy'n eich galluogi i chwilio am Swyddfa'r Post sydd wedi'i lleoli'n agos at eich cartref.

## Sut alla i drefnu gwiriad adnabod gyda Swyddfa'r Post?

Wrth gwblhau eich ffurflen gais ar-lein, bydd yn rhaid i chi ddewis pa ddogfennau adnabod y byddwch yn eu defnyddio i brofi pwy ydych chi. Unwaith y byddwch wedi dewis y dogfennau, bydd y system yn creu Cod QR.

Bydd y Cod QR hwn yn rhoi gwybod i Swyddfa'r Post bod angen gwiriad adnabod arnoch, a pha ddogfennau a fydd gennych.

Rhaid i chi fynd â'r Cod QR i Swyddfa'r Post ynghyd â'r dogfennau a ddewiswyd gennych ar eich ffurflen gais, neu ni fydd staff Swyddfa'r Post yn gallu cwblhau eich gwiriad adnabod.

## Oes angen i mi drefnu apwyntiad, neu a allaf droi i fyny ac ymuno â'r ciw?

Nac oes, nid oes angen i chi drefnu apwyntiad.

Cyn belled â bod y Cod QR a'r dogfennau a ddewiswyd gennych ar eich ffurflen gais gyda chi, gallwch fynd i unrhyw Swyddfa'r Post sydd wedi'i rhestru ar yr adnodd dod o hyd i gangen er mwyn i'r staff wirio eich manylion adnabod.

### Pa ddogfennau sydd eu hangen arnaf wrth fynd i Swyddfa'r Post er mwyn cynnal gwiriad adnabod DBS?

Bydd angen i chi ddod â dogfennau gwreiddiol sy'n profi eich manylion adnabod a'ch cyfeiriad. Mae'r rhain fel arfer yn cynnwys pasbort neu drwydded yrru ddilys, a bil cyfleustodau neu gyfriflen banc diweddar. Caiff yr union restr ei darparu gan ddarparwr gwasanaeth y DBS neu drwy'r ddolen hon: The 3 Route ID Checking Process

### Oes angen i mi argraffu'r Cod QR?

Nac oes, nid oes angen i chi argraffu'r Cod QR. Gallwch dynnu llun o'r Cod QR ar eich dyfais symudol, neu dynnu sgrinlun os ydych wedi cwblhau eich cais ar eich ffôn clyfar. Os nad oes gennych ffôn sy'n gallu tynnu lluniau, gallwch argraffu'r Cod QR a'i gynnwys gyda'ch dogfennau.

### Pa ddiwrnodau y mae Swyddfa'r Post yn cynnig gwiriadau adnabod DBS?

Caiff y gwasanaeth hwn ei gynnig yn ystod oriau agor arferol Swyddfa'r Post. Mae hyn yn cynnwys ar benwythnosau. Bydd angen i chi edrych ar wefan Swyddfa'r Post er mwyn gweld oriau agor pob swyddfa.

### Beth yw cost gwiriad a gynhelir yn Swyddfa'r Post?

Bydd angen i chi dalu ffi o £12.75 unwaith y byddwch wedi cwblhau eich gwiriad adnabod.

### A fydd angen i mi gwblhau gwiriad adnabod yn Swyddfa'r Post os ydw i wedi tanysgrifio i Wasanaeth Diweddaru'r DBS?

Na. Unwaith y byddwch wedi tanysgrifio i'r gwasanaeth diweddaru, byddwch yn talu ffi flynyddol er mwyn sicrhau bod eich statws DBS yn parhau'n gyfredol. Mae hyn yn golygu nad oes angen i chi adnewyddu eich DBS bob tair blynedd ac ymgymryd â gwiriad adnabod, cyn belled â bod statws eich tanysgrifiad yn weithredol o hyd.

### Rwyf am danysgrifio i'r gwasanaeth diweddaru, a fydd angen i mi gwblhau Gwiriad adnabod ychwanegol i wneud hyn?

Na, unwaith y bydd eich tystysgrif DBS wedi cyrraedd, gallwch gysylltu â'r DBS a chofrestru ar gyfer y gwasanaeth diweddaru.

### Sawl diwrnod sydd gennyf i danysgrifio i Wasanaeth Diweddaru'r DBS ar ôl cael fy nhystysgrif DBS?

Rhaid i chi danysgrifio i Wasanaeth Diweddaru'r DBS **o fewn 30 diwrnod calendr** i ddyddiad cyhoeddi eich tystysgrif DBS. Ni fyddwch yn gallu ychwanegu'r dystysgrif honno at y Gwasanaeth Diweddaru ar ôl y ffenestr 30 diwrnod hon a byddai angen i chi wneud cais am wiriad DBS newydd os byddwch am danysgrifio o hyd.

### A allaf ddefnyddio tystysgrif DBS o swydd neu sefydliad arall i gofrestru ag AGC?

Dim ond os ydych wedi tanysgrifio i **Wasanaeth Diweddaru'r DBS** a bod eich tystysgrif yn cyfateb â'r lefel gywir (tystysgrif fanylach â gwiriad o restri gwaharddedig fel arfer, yn dibynnu ar y rôl) Bydd AGC yn gwirio eich statws ar-lein. Os nad ydych wedi tanysgrifio, bydd angen i chi wneud cais am wiriad DBS newydd drwy AGC.

### Beth sydd angen i mi ei wneud os cefais fy nhystysgrif DBS drwy gwmni gwahanol?

Ar yr amod bod dyddiad eich tystysgrif DBS o fewn y tri mis diwethaf, bydd AGC yn gallu defnyddio'r dystysgrif honno.

### Pwy y dylwn i ei ffonio os bydd gennyf ymholiad?

Os bydd angen unrhyw gymorth arnoch â'ch cais DBS, cysylltwch â Vibrant Nation ar 02920 334995 neu drwy anfon e-bost i admin@vibrantnation.co.uk